**South Wales: Entry Level**

**Unit 5: Discussing what you want / Scene 3: Festive Surprise**
What's on Marian's Christmas list?

**GERAINT:** Beth wyt ti'n wneud?
What are you doing?

**MARIAN:** Dw i eisiau anrheg Nadolig i Mam. Mae hi eisiau... syrpreis!
I want a Christmas present for Mum. She wants… a surprise!

**GERAINT:** Syrpreis? O, na! Ydy hi eisiau rhywbeth i ddarllen?
A surprise? Oh, no! Does she want something to read?

**MARIAN:** Mmmm. Dim llyfrau.
Mmmm. No books.

**GERAINT:** Ydy hi eisiau rhywbeth i fwyta?
Does she want something to eat?

**MARIAN:** Dim bwyd. Mae hi ar ddeiet.
No food. She's on a diet.

**GERAINT:** Ydy hi eisiau CD neu DVD?
Does she want a CD or a DVD?

**MARIAN:** Nac ydy. Dyw hi ddim eisiau CD neu DVD. O, dw i ddim yn gwybod.
No. She doesn't want a CD nor a DVD. Oh, I don't know.

**GERAINT:** Ydy hi eisiau rhywbeth i'r tŷ? Radio newydd?
Does she want something for the house? A new radio?

**MARIAN:** Radio newydd? Mmm, syniad da. Diolch yn fawr Geraint! Syniad da iawn.
A new radio? Mmm, good idea. Thanks, Geraint!
A very good idea.

**GERAINT:** Marian. Beth wyt ti eisiau?
Marian. What do you want?

**MARIAN:** Dw i ddim yn siwr.
I'm not sure.

**GERAINT:** Wyt ti eisiau rhywbeth i ddarllen?
Do you want something to read?

**MARIAN:** Nac ydw, dim llyfrau.
No, no books.

**GERAINT:** Wyt ti eisiau rhywbeth i fwyta?
Do you want something to eat?

**MARIAN:** Nac ydw, dim bwyd.
No, no food.

**GERAINT:** Wyt ti eisiau CD neu DVD?
Do you want a CD or a DVD?

**MARIAN:** Nac ydw.
No.

**GERAINT:** Wyt ti eisiau radio newydd hefyd?
Do you want a new radio too?

**MARIAN:** Dim diolch!
No thanks!

**GERAINT:** Marian! Beth wyt ti eisiau?
Marian! What do you want?

**MARIAN:** O, Geraint, dw i eisiau syrpreis.
Oh, Geraint, I want a surprise.

**GERAINT:** Syrpreis? O, na!
A surprise? Oh, no!

 © Copyright 2008